

**CYFARFOD: PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

**DYDDIAD: 11 CHWEFROR 2021**

**TEITL: CYLLIDEB 2021/22**

**PWRPAS: Cyflwyno'r gyllideb y bwriedir ei argymhell gan y Cabinet i'r Cyngor i'w graffu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu**

**GWEITHREDIAD: Craffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet argymhell cyllideb 2021/22 i'r Cyngor llawn**

**AELOD CABINET: CYNGHORYDD IOAN THOMAS**

**SWYDDOG CYSWLLT: DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**

---

- 1.** Yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig ac yn dod i gasgliad ynglŷn â'r gyllideb i'w gynnig i'r Cyngor, fydd yn cynnwys argymhelliad ynglŷn â'r cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2021/22 (gweler y penderfyniad a geisir ar flaen yr adroddiad Cabinet atodol).
- 2.** Wedi ystyriaeth trylwyr mewn cyfres o weithdai aelodau, bydd y gyllideb yn cynnwys rhaglen o gynlluniau arbedion cyflwynir yn Atodiad 3, ynghyd â 'bidiau' ychwanegir at y gyllideb sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 2.
- 3.** Rhoddir ystyriaeth i nifer o'r risgiau ariannol a'r camau perthnasol i sicrhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol, yn Atodiad 10.
- 4.** Bydd y Cabinet yn rhoddi ystyriaeth i'r adroddiad yn fuan ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac wedi'r craffu yma, byddwn yn hysbysu'r Cabinet o gasgliadau'r Pwyllgor.
- 5.** Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet ar yr opsiynau.

**Atodiad:**

Cyllideb 2021/22 (adroddiad Cabinet 16/02/2021)